

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd  
Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau  
Iechyd) 2011

Adroddiad Pwyllgor  
Chwefror 2011



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8065  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk](mailto:Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd  
Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau  
Iechyd) 2011

Adroddiad Pwyllgor  
Chwefror 2011



## **Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1**

Sefydlwyd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried deddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad yn bennaf gan Aelodau Cynulliad unigol, pwyllgorau a Chomisiwn y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ar y deddfwriaeth honno. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gallu ystyried deddfwriaeth y llywodraethi, fel y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad arni.

### **Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Tachwedd 2008 fel un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig Rheolau Sefydlog 10, 22 a 23. Mae'r rhain ar gael yn [www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)

### **Aelodau'r Pwyllgor**

<i>Aelod Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Rosemary Butler (Cadeirydd)	Llafur	Gorllewin Casnewydd
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gogledd Cymru
Andrew Davies*	Llafur	Gorllewin Abertawe
Chris Franks	Plaid Cymru	Canol De Cymru
Val Lloyd	Llafur	Dwyrain Abertawe
Nick Ramsay	Ceidwadwyr Cymreig	Mynwy

\* Andrew Davies AC oedd y dirprwy parhaol ar ran Ann Jones AC dros gyfnod craffu'r Pwyllgor ar Orchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011.

# Cynnwys

---

<b>Argymhellion y Pwyllgor .....</b>	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>6</b>
Cefndir .....	6
Cwmpas Gwaith Craffu'r Pwyllgor.....	6
<b>2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig .....</b>	<b>8</b>
Cefndir .....	8
Memorandwm Esboniadol .....	9
Tystiolaeth gan Ymgynghoreion.....	10
Tystiolaeth gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol .....	17
Ein safbwynt .....	22
<b>3. Cwmpas y Gorchymyn arfaethedig .....</b>	<b>24</b>
Tystiolaeth gan ymgynghoreion - sylwadau cyffredinol .....	24
Tystiolaeth gan ymgynghoreion - ystyr "neu fath arall o awdurdodiad" .....	24
Tystiolaeth gan ymgynghoreion - ystyr "deunydd perthnasol" .....	24
Tystiolaeth gan ymgynghoreion - cymhwyso'r Gorchymyn arfaethedig i blant .....	25
Tystiolaeth gan ymgynghoreion - y defnydd o organau ar gyfer ymchwil.....	25
Tystiolaeth gan ymgynghoreion - gwaed a meinweoedd llinyn y bogail .....	26
Tystiolaeth gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol .....	26
Ein safbwynt .....	28
<b>Tystion .....</b>	<b>30</b>
<b>Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .....</b>	<b>31</b>



## Argymhellion y Pwyllgor

---

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn yr ymddangosant yn yr Adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y paragraffau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cefnogi'r argymhellion:

- Rydym yn cytuno mewn egwyddor y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir yn y Gorchymyn arfaethedig.
- Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn datblygu rhaglen addysg gyhoeddus fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth a fydd yn deillio o'r Gorchymyn arfaethedig hwn.
- Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn ystyried a ddylid dileu'r term 'neu fath arall o awdurdodiad' neu roi geiriad arall yn ei le sy'n disgrifio'n fwy eglur y pwerau y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio.
- Rydym yn fodlon y dylai'r Gorchymyn arfaethedig fod yn gymwys i bersonau dros 18 oed a hŷn yn unig ac, o'r herwydd, rydym yn fodlon â'r diffiniad o 'oedolyn marw' a ddefnyddir yn y Gorchymyn arfaethedig.
- Rydym yn fodlon â'r diffiniad o 'ddeunydd perthnasol' a ddefnyddir yn y Gorchymyn arfaethedig.
- Rydym yn fodlon â'r diffiniad o 'ddeunydd perthnasol' a ddefnyddir yn y Gorchymyn arfaethedig.

# 1. Cyflwyniad

---

## Cefndir

1. Ar 10 Ionawr 2011, gosododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog") *Orchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) 2011*<sup>1</sup> ("y Gorchymyn arfaethedig") a Memorandwm Esboniadol<sup>2</sup>, yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 a 22.14. Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ynglŷn â'r Gorchymyn arfaethedig ar 12 Ionawr 2011.<sup>3</sup>
2. Ar 7 Rhagfyr 2010, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ei ystyried yn fanwl. Cytunodd, yn sgil hynny, ar ddyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r adroddiad, sef 4 Chwefror 2011.<sup>4</sup>

## Cwmpas Gwaith Craffu'r Pwyllgor

3. Cytunodd y Pwyllgor ar gwmpas ei waith craffu y tu allan i'r Pwyllgor ar 12 Ionawr 2011, fel y nodir isod:
  - (i) ystyried egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir o dan Fater 9.3 gael eu rhoi i'r Cynulliad; ac
  - (ii) ystyried a yw amodau'r Gorchymyn arfaethedig wedi cael eu diffinio'n rhy eang neu'n rhy gul.
4. Cyhoeddwyd galwad gyffredinol gennym am dystiolaeth ar ffurf arolwg ar-lein a gwahoddwyd sefydliadau sydd â diddordeb yn y maes i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn cynorthwyo ein gwaith. Mae cwestiynau'r arolwg a rhestr o ymatebion yr ymgynghoriad i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
5. Hoffem gofnodi ein diolch i bawb a roddodd eu hamser i ymateb i'n hymgynghoriad, yn enwedig o gofio mai amser cyfyngedig oedd modd i ni ei roi ar gyfer cyflwyno sylwadau, o ystyried yr amserlen dynn ar gyfer cyflwyno ein hadroddiad.

---

<sup>1</sup> <http://www.cynulliadcymru.org/lco-ld8348-e.pdf>

<sup>2</sup> <http://www.cynulliadcymru.org/lco-ld8348em-e.pdf>

<sup>3</sup> [Y Cofnod, 12 Ionawr 2011](#)

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Busnes, 11 Ionawr 2011



6. Cafwyd tystiolaeth lafar gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ein cyfarfod ar 20 Ionawr 2011.
7. O dan Reol Sefydlog 22.21, wrth baratoi ein hadroddiad, rhaid i ni, cyn belled ag sy'n ymarferol resymol, ystyried unrhyw argymhellion a wnaed ynglŷn â'r Gorchymyn arfaethedig gan:
  - (i) unrhyw bwyllgor arall o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
  - (ii) unrhyw bwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi neu unrhyw un o gydbwyllgorau'r ddau Dŷ.
8. Ni wnaed unrhyw argymhellion o'r fath mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig.
9. Mae'r adroddiad canlynol yn amlinellu'r casgliadau y daethom iddynt yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein gwaith.

## 2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig

---

### Cefndir

10. Diben y Gorchymyn arfaethedig yw diwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006") i roi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy fewnosod Mater newydd, Mater 9.3, ym Maes 9 (iechyd a gwasanaethau ieched).

11. Bydd rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy'r Gorchymyn arfaethedig yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru ("Llywodraeth Cymru"), pwyllgorau'r Cynulliad neu Aelodau Cynulliad unigol i gyflwyno cynigion ar gyfer deddfu, ar ffurf Mesurau Cynulliad, o fewn cwmpas Mater 9.3.

12. Nodir Mater 9.3 isod:

#### Mater 9.3

Cydsyniad neu awdurdod arall i'r gweithgareddau canlynol at y diben o drawsblanni i gorff dynol -

(a) storio a defnyddio corff oedolyn marw;

(b) tynnu, storio a defnyddio unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n cyfansoddi corff o'r fath neu sy'n gynwysedig ynddo.

Nid yw'r mater hwn yn ymestyn hyd at gydsynio i, neu awdurdodi rywfodd arall, unrhyw un o'r gweithgareddau a bennir ym mharagraffau (a) a (b) o dan yr amgylchiadau canlynol heb gydsyniad crwner.

Yr amgylchiadau yw'r rhai hynny lle mae person sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) a (b) yn gwybod, neu os oes ganddo reswm i gredu, bod angen, neu y gallai fod angen corff y person marw, neu ddeunydd perthnasol a ddaeth o gorff y person marw, at ddibenion swyddogaethau crwner.

Yn y mater hwn —

mae "oedolyn marw" yn golygu person marw a oedd wedi cyrraedd 18 oed cyn ei farwolaeth;

mae "deunydd perthnasol" yn golygu deunydd a gyfansoddir o gelloedd dynol, ac eithrio gametau, embryonau, gwallt ac ewinedd.

## Memorandwm Esboniadol

13. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n dod gyda'r Gorchymyn arfaethedig, mae Llywodraeth Cymru'n datgan:

“Byddai'r cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn caniatáu datblygu deddfwriaeth a fyddai'n gyrru yn ei flaen bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynyddu'r nifer o organau a meinweoedd a fydd ar gael i'w rhoi, ac yn benodol, cyflwyno system ymeithrio "feddal". Yr hyn a olygwn wrth system ymeithrio "feddal" yw y câi meddygon dynnu organau o bob oedolyn sy'n byw ac yn marw yng Nghymru pan fo'r gyfraith yn gymwys iddo, oni fydd y person wedi cofrestru i ymeithrio; ond byddai meddygon yn mabwysiadu'r arfer da o ofyn i'r perthnasau gydsynio ar adeg y farwolaeth. Bydd angen pennu'n eglur, mewn deddfwriaeth o'r fath, y personau y bydd y deddfwriaeth yn gymwys iddynt.”<sup>5</sup>

14. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi y byddai cyflwyno system o ddewis ymeithrio o roi organau yn gymwys i'r rheini "sy'n byw ac yn marw yng Nghymru"<sup>6</sup> yn ogystal â pharhau â'r "system bresennol o ddewis ymuno, a weithredir ledled y DU".<sup>7</sup>

15. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn egluro ei bod am gynyddu nifer y rhoddwyr organau a meinweoedd yng Nghymru er mwyn "gwella iechyd ac ansawdd bywyd dinasyddion".<sup>8</sup> Mae'n rhestru'r rhesymau<sup>9</sup> dros gyflwyno system "feddal" o ymeithrio o roi organau fel a ganlyn:

- Mae astudiaethau'n dangos bod mwyafrif o'r bobl yn dweud y byddent yn fodlon rhoi eu horganau at ddibenion trawsblannu, ond tua chwarter y boblogaeth yn unig sydd â'u henwau yng Nghofrestr Rhoi Organau y GIG [*yn y DU*]

---

<sup>5</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 31

<sup>6</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 9

<sup>7</sup> *ibid*

<sup>8</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 6

<sup>9</sup> Mae Llywodraeth Cymru'n egluro mai Cymdeithas Feddygol Prydain a Luniodd y rhestr yn wreiddiol, ond ei bod yn cymeradwyo'r rhestr.

- O ystyried bod mwyafrif o'r bobl yn dweud y byddent yn fodlon rhoi, mae rhagdybio cydsyniad yn hytrach na rhagdybio gwrthwynebiad yn fwy tebygol o sicrhau'r nod o barchu dymuniad y person ymadawedig.
- Yn wahanol i'r system gyfredol, byddai mecanwaith eglur ar gyfer amddiffyn dymuniadau'r rhai nad ydynt yn dymuno bod yn rhoddwyr.
- Er y byddid yn parhau i ymgynghori â pherthnasau, caent eu rhyddhau o'r baich o wneud penderfyniad yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth o ddymuniadau'r ymadawedig.
- Byddai newid i gyfeiriad rhagdybio cysyniad yn ysgogi mwy o drafod o fewn teuluoedd ynghylch rhoi organau.
- Gyda newid o'r fath, byddai rhoi organau yn dod yn amgylchiad diofyn. Byddai hynny'n cynrychioli agwedd fwy cadarnhaol tuag at roi organau, ac yn ddatblygiad i'w gymeradwyo.
- Er cydnabod mor anodd yw casglu data ystyrion ynglŷn â chydsyniad tybiedig mewn gwledydd eraill, mae'r BMA o'r farn y byddai newid i ragdybio cydsyniad, fel un rhan o strategaeth ehangach, yn debygol o gael effaith fuddiol ar y cyfraddau rhoi.<sup>10</sup>

16. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio hefyd at waith y Tasglu Rhoi Organau<sup>11</sup>; adroddiad 2008 ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol i ganiatâd tybiedig i roi organau<sup>12</sup> a thrafodaeth gyhoeddus ar gydsyniad tybiedig, a gychwynwyd gan Lywodraeth Cymru.<sup>13</sup>

### **Tystiolaeth gan Ymgynghoreion**

17. Derbyniwyd 80 o ymatebion i arolwg ein hymgynghoriad ac o'r rhain, roedd 64 y cant o blaid y Gorchymyn arfaethedig, a 36 yn erbyn.

<sup>10</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 21

<sup>11</sup> Tasglu'r DU gyfan a sefydlwyd yn 2006 gyda'r nod o hybu rhoi organau. Gwefan (archif): [http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/www.dh.gov.uk/en/Healthcare/Secondarycare/Transplantation/Organdonation/DH\\_081593](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/www.dh.gov.uk/en/Healthcare/Secondarycare/Transplantation/Organdonation/DH_081593)

<sup>12</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol. *Ymchwiliad i Ganiatâd Tybiedig i Roi Organau*, Gorffennaf 2008

<sup>13</sup> Cynhwysir adroddiad ar ganlyniad y ddatl hon yn y ddogfen ymgynghorol ganlynol: Llywodraeth Cymru, *Opsiynau ar gyfer newid y system rhoi organau yng Nghymru*, Mai 2009

18. Teimlai llawer o'r bobl a oedd o blaid y Gorchymyn y byddai'n cynyddu nifer yr organau a fyddai ar gael i'w rhoi ac yn achub bywydau. Dywedodd Diabetes UK Cymru:

“The need for new organs is vital for a number of conditions and the proposed 'opt out' system would be a great advance for the number of people for whom a new organ could literally be a matter of life and death.”<sup>14</sup>

19. Wrth gefnogi'r ddeddfwriaeth arfaethedig, dywedodd aelod o'r cyhoedd:

“The ethical concerns which have been raised are valid in many ways, but weighed against the overwhelming evidence that the measure could increase the number of organs available for transplant, thereby saving lives, one must favour changing the system in the way the Health Minister is suggesting”<sup>15</sup>

20. Wrth fynegi cefnogaeth i'r Gorchymyn arfaethedig, dywedodd Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru:

“The BHF supports measures to improve the UK’s rate of organ donation. These measures include consistent national promotion coupled with a strong infrastructure of organ retrieval and professional training. Whilst such measures will go a long way to improving donor organ availability, we believe that a soft opt out system where close relatives retain the power of veto should underpin organ transplantation in Wales, and more broadly the UK as a whole. We believe the Assembly should be able therefore to legislate in this area, as detailed in the Order.”<sup>16</sup>

21. Dywedodd hefyd:

“The current system of organ donation does not adequately reflect the high levels of public support. This support for organ donation remains very high at around 90 per cent, yet the number of people signed up to the Organ Donor Register is

---

<sup>14</sup> HHS41

<sup>15</sup> HHS9

<sup>16</sup> HHS66

just 28 per cent. This highlights the need for a system that better captures the intentions of the public. "<sup>17</sup>

22. Roedd ymgynghorion eraill yn rhannu'r farn hon. Teimlai un aelod o'r cyhoedd y byddai system o ddewis ymeithrio o roi yn golygu y byddai dymuniadau mwy o bobl yn cael eu gwireddu ac y byddai'n helpu i ddileu'r anghysondeb rhwng nifer y bobl sy'n dweud eu bod am roi organau a'r nifer a roddir mewn gwirionedd.<sup>18</sup> Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan aelod arall o'r cyhoedd:

"It clears up the grey area where people would be happy to donate, but have not got around to letting anyone know. That grey area could save hundreds of lives and bring an immeasurably better quality of life to so many people."<sup>19</sup>

23. Ychwanegodd:

"Sometimes, you have to make radical decisions that make a difference and without doubt, this is one of those times. "<sup>20</sup>

24. Gwnaed y pwyntiau canlynol gan People Like Us Cymru:

"It has been widely accepted that the majority of people support the idea of organ donation but do not sign up to the register. A soft opt out system will make it easier for people to have their wishes followed after their death."<sup>21</sup>

25. Ychwanegodd People Like Us Cymru:

"People who are not willing to donate can register their wishes by opting out."<sup>22</sup>

26. Roedd cyfrannwr dienw'n rhannu'r farn hon y dylai'r pwyslais fod ar ddewis ymeithrio o roi, yn hytrach na dewis rhoi:

"It seems stupid to me to have so many people losing their battle for life when organs would be available. People tend not to take the trouble to register to donate because they are busy doing other things or don't think about it. If someone has

---

<sup>17</sup> HHS66

<sup>18</sup> HHS17

<sup>19</sup> HHS47

<sup>20</sup> HHS47

<sup>21</sup> HHS57

<sup>22</sup> HHS57

strong views against donation they will make sure that they opt out.”<sup>23</sup>

27. Awgrymodd aelod o'r cyhoedd na fyddai dibynnu ar gofrestr rhoddwyr yn arwain at gynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu.<sup>24</sup> Teimlai:

“Organ Donor Register promotion creates awareness but does not solve the problem, increasing the number of people on the Organ Donor Register alone is not enough.”<sup>25</sup>

28. Teimlai ymgylgoreion eraill y byddai cael pwerau a'r defnydd o system “feddal” o ddewis ymeithrio o roi yn gosod cynsaill i weddill y DU ei ddilyn<sup>26</sup>, tra teimlai eraill y dylid cyflwyno system o ganiatâd tybiedig yng Nghymru am ei fod yn gweithio'n dda mewn gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.<sup>27</sup>

29. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, roedd lleiafrif sylweddol o bobl yn gwrthwynebu bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael pwerau i ddefnyddio system feddal o ddewis ymeithrio o roi.

30. Teimlai nifer o ymgylgoreion y byddai cyflwyno system o ganiatâd tybiedig yn diddymu hawliau dinasyddion ar draul y wladwriaeth ac y byddai system o'r fath yn cyfyngu ar hawliau'r unigolyn. Teimlai cyfrannwr dienw:

“... the proposal for a 'soft opt out' goes too far in assuming that anyone has a right to the body parts of another human being. Our bodies are our own and not the possession of a state to use as it sees fit; this is an unacceptably intrusive proposal on the rights of the individual. If people wish to donate it is their gift and their gift alone. ... If the state wishes to assist in increasing the level of donations then the state has to be more persuasive in achieving increased levels of voluntary donation. I am sympathetic to the needs of those awaiting transplants and some situations can be very difficult but transplantation is an opportunity not a right.”<sup>28</sup>

---

<sup>23</sup> HHS3

<sup>24</sup> HHS67

<sup>25</sup> HHS67

<sup>26</sup> HHS27, HHS28, HHS48, HHS53, HHS65, HHS79

<sup>27</sup> HHS22, HHS48, HHS67

<sup>28</sup> HHS5

31. Soniodd cyfrannwr dienw arall am ei bryder ynglŷn â'r posibilrwydd o droseddu yn erbyn hawliau dynol unigolion a mynegodd anfodlonrwydd hefyd ynghylch y meddylfryd sy'n sail i ganiatâd tybiedig:

"I am uncomfortable with the concept that you can assume that ... absence of disagreeing with something implies implicit agreement."<sup>29</sup>

32. Teimlai aelod o'r cyhoedd y byddai:

"To force through an opt-out system as proposed would at a stroke remove this profound compact between citizen and state and effectively leave the state as "owning every person's organs", which are "loaned out" for the duration of life and then returned on death."<sup>30</sup>

33. Ychwanegodd:

"Clearly, there is a concern about the low rate of donation and there are many people waiting for an appropriate organ, so the best way is to be more creative and pro-active in how the national agencies encourage citizens to make this important gift for another."<sup>31</sup>

a hyrwyddodd rinweddau'r system bresennol o ddewis rhoi:

"The current opt-in system respects the citizen's right to decide to act altruistically by pledging their organs following death for possible use by an anonymous donee. Such a system operates in Ireland which has one of the best rates of donation in the world and where there is a "high-trust" environment, facilitating a greater willingness of citizens to donate."<sup>32</sup>

34. Hefyd, mynegodd ymgynghoreion eraill gefnogaeth i'r system bresennol o ddewis rhoi. Dywedodd aelod arall o'r cyhoedd:

"Organ donation is a sensitive issue for many people in many ways and ... there is nothing wrong with the present method of people wishing to donate organs if they so wish. To make

---

<sup>29</sup> HHS6

<sup>30</sup> HHS56

<sup>31</sup> HHS56

<sup>32</sup> HHS56



people state if they do not want to donate is fundamentally wrong, in some way it is shaming people to do something they do not want to do for whatever reason. People should be allowed to make their own decision on this sensitive issue, if people wish to donate then register in the normal way, if people do not wish to donate then do not register... “<sup>33</sup>

35. Holodd Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain a yw system o ganiatâd tybiedig yn golygu bod cydsyniad wedi’i roi mewn gwirionedd.<sup>34</sup> Ychwanegodd:

“For those who decide to opt-out [it] is clear that they are making a positive decision not to consent, but for the majority it is assuming or presuming they consent, when in reality many will not make a conscious decision to do so.”<sup>35</sup>

36. Hefyd, teimlai Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain:

“It would be better to defer any decision until 2013 as recommended in the second Organ Donation Taskforce report (The potential impact of an opt-out system for organ donation in the UK), by which time the full impact of the recommendations from first report of the ODTF will be known.”<sup>36</sup>

37. Mynegodd Donor Family Network gefnogaeth i argymhelliad y Tasglu Rhoi Organau na ddylid bwrw ymlaen â newid i system o ganiatâd tybiedig yn y DU a chredai y gellid cynyddu nifer y trawsblaniadau sy'n digwydd o fewn y system bresennol pe bai argymhellion adroddiad llawn y tasglu yn cael eu rhoi ar waith.<sup>37</sup>

38. Teimlai nifer o ymgylgoreion a wrthwynebai'r Gorchymyn arfaethedig y dylid gwneud penderfyniadau ar lefel y DU<sup>38</sup> ac y byddai cael gwahanol arferion rhwng Cymru a gweddill y DU o ran rhoi organau yn arwain at ddryswch.<sup>39</sup> Ar y pwynt olaf, ac mewn perthynas â'r ffaith na fyddai'r system arfaethedig ond yn gymwys i bobl sy'n byw

---

<sup>33</sup> HHS38

<sup>34</sup> HHS50

<sup>35</sup> HHS50

<sup>36</sup> HHS50

<sup>37</sup> HHS58

<sup>38</sup> HHS15, HHS33, HHS34, HHS36, HHS46, HHS56, HHS77

<sup>39</sup> HHS14, HHS50, HHS52, HHS78

ac yn marw yng Nghymru, dywedodd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol<sup>40</sup>:

“Organ donation teams in Welsh hospitals will need to be trained on both systems and able to identify which group a deceased, or soon to be deceased, person is in. There is a risk that introducing complexity, and potentially confusion, to a clear statutory system could diminish people’s confidence in organ donation and consent more widely.”<sup>41</sup>

39. Wrth ystyried dymuniad Llywodraeth Cymru i weld cynnydd yn nifer y rhoddwyr organau a meinweoedd er mwyn gwella iechyd ac ansawdd bywyd dinasyddion, dywedodd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol nad oes unrhyw dystiolaeth wedi'i rhoi i brofi'r ffaith y byddai system “feddal” o ymeithrio o roi yn gwneud hyn<sup>42</sup> ac ychwanegodd:

“If there is to be a move away from the current position of an opt-in system under the Human Tissue Act, with the associated protections given to the individual’s wishes and consistency in consent requirements, it should have a solid evidence base.”<sup>43</sup>

40. Un o'r themâu a gododd o'r dystiolaeth a gafwyd oedd y pwyslais a osodwyd ar yr angen am wybodaeth gyhoeddus ac addysgu gwell. Tanlinellwyd pwysigrwydd y mater hwn gan y rhai a oedd o blaid y Gorchymyn arfaethedig yn ogystal â'r rhai a oedd yn ei erbyn.

41. Wrth gefnogi'r Gorchymyn arfaethedig, dywedodd SNAP Cymru:

“We understand this to be a very difficult order and strongly recommend high publicity for the opt out opportunity. This publicity should be on going to protect people’s rights in decision making.”<sup>44</sup>

42. Dywedodd aelod o'r cyhoedd:

“It has always been recognised that should the Assembly receive a[n] LCO ... a lot more work will need to be done to

---

<sup>40</sup> Cafodd ymateb yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ei ddarparu fel ystyriaeth gychwynnol o ystyried y cyfnod ymgynghori byr ac ni fynegodd yr Awdurdod farn o ran a oedd yn cefnogi'r Gorchymyn arfaethedig ai peidio.

<sup>41</sup> HHS69

<sup>42</sup> HHS69

<sup>43</sup> HHS69

<sup>44</sup> HHS30

inform and educate the people of Wales in all matters of the proposed change, especially giv[ing] advice and guidance to those people who wish to opt out. In addition, a lot of consideration and deliberation will be needed as to how such a law will work in practi[c]e.”<sup>45</sup>

43. Teimlai Pwyllgor Rhoi Organau Bwrdd Iechyd Hywel Dda y byddai cyflwyno deddfwriaeth ynddo'i hun yn codi proffil rhoi organau:

“The legislation change will certainly generate much needed publicity and debate about organ donation, get families talking about the subject so that they know what each other might want.”<sup>46</sup>

44. O blith y rhai a wrthwynebai'r Gorchymyn arfaethedig, daeth galwad gan aelod o'r cyhoedd i wneud mwy i annog pobl i ddewis rhoi organau o fewn y system bresennol:

“... matters of such ethical sensitivity require better public education and information to enable better informed personal decisions to be made about opting into the donation process.”<sup>47</sup>

45. Galwodd aelod arall o'r cyhoedd a wrthwynebai'r Gorchymyn arfaethedig am gynnwys materion yn ymwneud â rhoi organau yn rhan o'r agenda addysg iechyd ehangach:

“... this is a very emotive subject, and should be brought into general health education, to encourage people to make informed decisions...”<sup>48</sup>

### **Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

46. Eglurodd y Gweinidog beth oedd diben y Gorchymyn arfaethedig:

“The outcome that we are looking for is an increase in the number of organs for donation, and more people receiving organ transplants. We recognise that it will benefit some Welsh patients, but it will benefit patients throughout the United

---

<sup>45</sup> HHS22

<sup>46</sup> HHS64

<sup>47</sup> HHS14

<sup>48</sup> HHS13

Kingdom. I hope that, if this practice comes in in Wales, others will seek to do the same elsewhere, in order to increase the number of organs that are available for transplant ... We are not doing it to be different; we are doing it for the right reason, which is to increase the number of organs that are available.<sup>49</sup>

47. Dywedodd hefyd:

“If you speak to individuals and look at public opinion, everyone says that they think that donation is a good thing. However, when you then look at the number of people who donate, only about a quarter of people actually register. So, for me, it was an issue of ensuring that what people really feel becomes a reality.”<sup>50</sup>

48. Hefyd, eglurodd y Gweinidog fod cael pwerau deddfwriaethol yn rhan o "broses ddeublyg", sydd hyd yn hyn wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac edrych ar seilwaith iechyd.<sup>51</sup> Yn arbennig, nododd:

“... in the discussions that we have had, particularly with the British Medical Association and the voluntary sector, we have been told that there is one more thing to do and that is to have legislation within this area.”<sup>52</sup>

49. Roedd Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru, a ddaeth i'r cyfarfod gyda'r Gweinidog, hefyd yn pwysleisio mai rhan o gyfres o fesurau i gynyddu nifer y rhoddwyr organau yw'r deddfwriaeth arfaethedig:

